

# Y Gymraeg mewn Busnes Cyngor Sir Gâr





**recycle  
ailgylchu**

Please recycle this publication  
Cofiwch ailgylchu'r cyhoeddiad yma

# Pam defnyddio'r Gymraeg yn eich busnes?

## Ceir mantais busnes o ddefnyddio'r Gymraeg

Mae cynnig dewis iaith i'ch cwsmer yn arfer dda o ran gofal cwsmer ac yn dangos parch at y cwsmer a pharch at y Gymraeg.

Rydym yn byw mewn gwlad ddwyieithog. Yn ôl Cyfrifiad 2011, mae bron 80,000 o siaradwyr Cymraeg yn Sir Gâr. Wrth ystyried taw 183,777 yw poblogaeth y sir, mae bron 1 o bob 2 o'ch cwsmeriaid yn siarad Cymraeg.

Dengys ymchwil gan Beaufort Research yn 2005 (a gomisiynwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg) bod 92% o siaradwyr Cymraeg rhugl yn meddwl ei fod yn bwysig i fusnesau arddangos arwyddion dwyieithog a chynhyrchu ffurflenni a thafleuni yn ddwyieithog.

Mae Llywodraeth Cymru, Comisiynydd y Gymraeg a Chyngor Sir Gâr wedi ymrwyno i hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg. Mae cynnydd yn y galw am addysg ddwyieithog ar draws y sir ac mae mwy a mwy o gynghorau bro yn defnyddio'r Gymraeg.

Gallwch gyflwyno'r Gymraeg i'ch busnes gam wrth gam a gallwch ddechrau gydag agweddau gweledol a fydd yn rhoi argraff gadarnhaol i'ch cwsmeriaid.

Wrth ymgeisio am gyllid o ffynonellau grant ar gyfer datblygu deunyddiau marchnata, mae'r rhan fwyaf o gronfeydd yn cydnabod bod cyfieithu yn elfen gymwys i'w gyllido.

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi datblygu gwefan newydd i fusnesau sydd â'r nod o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Cewch gyngor ar:

Bolisi iaith

Y Fantais Gymraeg

Hyrwyddo Gwasanaethau Cymraeg

Comisiynydd y Gymraeg

Cewch fanylion hefyd ar wefan newydd Llywodraeth Cymru sydd â'r teitl 'Cymraeg'.

## Beth yw'r manteision o ddefnyddio'r Gymraeg?

- Bydd eich busnes yn elwa o weithredu'n ddwyieithog; proffil cyhoeddus uwch, mwy o gwsmeriaid pan fyddwch yn cynyddu maint eich marchnad darged, hybu ffyddlondeb cwsmeriaid
- Mae iaith yn rhan bwysig o hunaniaeth pob person
- Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru
- Gall person fynegi ei hun yn fwy effeithiol yn ei ddewis iaith
- Parchu dewis iaith siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg
- Mae gwasanaethau a gweithgareddau dwyieithog yn arwydd o arfer da a hybu cydraddoldeb
- Cyfrannu at warchod iaith a diwylliant cynhenid y sir
- Mae ymchwil manwl yn dangos bod dwyieithrwydd yn hybu'r gallu i ddatrys dryswch a meistrolï ieithoedd eraill
- Magu perthynas cyflym â chwsmeriaid

Darganfu astudiaeth o ddefnydd iaith ymysg defnyddwyr gwasanaethau yn y Ffindir a Chanada... y byddai defnyddwyr yn fodlon talu pris uwch am wasanaeth sy'n cael ei ddarparu yn eu hiaith gyntaf, hyd yn oed os ydynt yn ddwyieithog. Roedd pwysigrwydd iaith ymysg defnyddwyr gwasanaeth yn gyson ar hyd y pedwar grŵp o ddefnyddwyr a astudiwyd: Siaradwyr Saesneg Canada, Siaradwyr Ffrangeg Canada, Siaradwyr Swedeg y Ffindir a Siaradwyr Ffinneg y Ffindir. Daeth Holmqvist (2011, 188) hefyd i'r casgliad nad 'teclyn niwtral i gyfathrebu yw iaith; yn hytrach mae'n cynrychioli synnwyr o hunaniaeth bersonol... mae gan ddefnyddwyr gysylltiad emosiynol at ddefnydd o'u hiaith gyntaf sy'n mynd y tu hwnt i agweddau ymarferol cyfathrebu gyda darparwr gwasanaeth'. Gellir dadlau y bydd yn cael effaith ar hyder cynyddol yn y darparwr gwasanaeth.

*Language in International Business: The Multilingual Reality of Global Business Expansion, Rebecca Piekkari, Denice E. Welch, Lawrence S. Welch*

'Mae'n gwneud i ni sefyll allan... yn bersonol, pan oeddwn yn byw yn Llundain, y rheswm roedd pethau'n gwerthu yw eu bod yn wahanol, mewn ieithoedd gwahanol, gyda phwynt gwahanol ar y silffoedd...pan ddois yn ôl [i'r cwmni], roeddwn yn edrych i mewn fel rhywun allanol ag yn fy marn i, doedd y 'Village Dairy' ddim yn rhoi digon o wahaniaeth i ni fel cwmni...felly wnaethon ni benderfynu ei symud o'n ôl, a'i ail frandio i gryfhau y busnes, i gryfhau'r ochr Gymraeg.'

*Llaeth y Llan*  
*Gwerth y Gymraeg i'r sector bwyd a diod yng Nghymru*  
*Adroddiad ymchwil Comisiynydd y Gymraeg*  
*Rhagfyr 2014*



DWYIEITHRWYDD yw'r gallu i ddefnyddio dwy iaith mewn agweddau ar fywyd bob dydd. Mae rhai pobl yn teimlo'r un mor gartrefol yn y ddwy iaith. Ond, mae'r rhan fwyaf ohonom yn fwy cyfforddus yn defnyddio un iaith yn hytrach na'r llall mewn amrywiol sefyllfaoedd. Mae sicrhau bod dewis iaith ar gael yn holl bwysig.

## Arfau Dwyieithrwydd

### Gweledol

- Gosodwch arwyddion dwyieithog
- Paratowch logos a phenawdau llythyrau yn ddwyieithog y tro nesaf yr archebwch stoc newydd
- Cynhyrchwch sticeri, bathodynau dwyieithog ar gyfer eich ymgyrch gyhoeddusrwydd nesaf
- Trefnwch eitemau yn Gymraeg yn eich Cylchlythyr
- Hysbyswch ddefnyddwyr eich busnes am eu hawl i ddefnyddio'r Gymraeg

### Cyswllt gyda chwsmeriaid

- Atebwch y ffôn yn ddwyieithog neu rhowch neges ddwyieithog ar beiriant ateb
- Hysbysebwch y swydd wag / digwyddiad nesaf yn ddwyieithog
- Trefnwch erthygl am eich busnes yn y Papur Bro Lleol
- Defnyddiwch siaradwr Cymraeg i fod yn llefarydd ar ran eich busnes
- Cynhyrchwch agenda eich cyfarfodydd yn ddwyieithog
- Atebwch ymholiadau Cymraeg yn Gymraeg
- Sicrhewch gefnogaeth i staff sy'n defnyddio neu sy'n dysgu Cymraeg
- Adolygwch a chyhoeddwch eich Polisi iaith Gymraeg
- Cynhaliwch Awdit Sgiliau Iaith gyda'ch gweithwyr o ran sgiliau siarad, deall, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Gall hyn eich helpu i gynllunio eich adnoddau yn well.

Mae gweithredu'n ddwyieithog o fewn cyrraedd eich busnes chi. Yr allwedd yw cynllunio gofalus a chynnwys dwyieithrwydd o'r cychwyn. Mae buddiannau dwyieithrwydd yn llawer mwy nag unrhyw gostau ychwanegol.

'Fe wnaiff pobl yng Nghymru gefnogi cwmnïau Cymreig – os yw'r cynnyrch yn dda, fe fyddant yn parhau'n deyrngar, os yw'n dda i ddim, fe wnânt ei daflu'n ôl i'ch wyneb chi. Mae yna lawer iawn o deyrngarwch i'n brand ni.'

*Paned Gymreig – Welsh Brew  
Gwerth y Gymraeg i'r sector bwyd a diod yng Nghymru  
Adroddiad ymchwil Comisiynydd y Gymraeg  
Rhagfyr 2014*



## Recriwtio staff dwyieithog

Er bod gan bobl ofnau, mae staff dwyieithog yn adnodd gwerthfawr i unrhyw sefydliad neu fusnes. Gallwch adeiladu gallu dwyieithog eich busnes trwy drin y Gymraeg yn gydradd â'r Saesneg.

**Mae gweithredu'n ddwyieithog yn rhoi'r neges eich bod yn parchu anghenion siaradwyr Cymraeg.**

Ewch ati i adnabod pa sgiliau iaith sydd gyda'ch gweithwyr o ran sgiliau siarad, deall, darllen ac ysgrifennu Cymraeg. Gall hyn eich helpu i gynllunio eich adnoddau yn well.

### Sut i fynd ati?

- Lansiwch ymgyrch gyhoeddusrwydd sy'n tanlinellu eich bod angen siaradwyr Cymraeg
- Hysbyseb wch yn y cyfryngau Cymraeg: Radio Cymru, S4C, Y Cymro, Golwg, [www.lleol.cymru](http://www.lleol.cymru) ayb
- Rhowch hysbysebion Cymraeg neu ddwyieithog yn y wasg leol
- Dosbarthwch wybodaeth ddwyieithog am eich busnes i gyflogwyr lleol, canolfannau cymdeithasol lleol, ysgolion a chynghorau cymuned
- Dosbarthwch wybodaeth wedi ei dargedu at rwydweithiau a chymunedau Cymraeg trwy siopau llyfrau Cymraeg, Merched y Wawr, Canolfannau Cymraeg i Oedolion, Mentrau Iaith ayb. (Ceir mwy o fanylion ar daflen Fforwm Iaith Sir Gâr)
- Gofynnwch am gymwysterau dwyieithog neu gyfrwng Cymraeg wrth hysbysebu am swyddi. Bydd hyn yn profi bod Cymraeg ar lefel sylfaenol gan yr ymgeiswyr a'u bod yn hyderus i ddelio â sefyllfa yn ddwyieithog
- Lluniwch strategaethau i sicrhau bod staff a chwsmeriaid Cymraeg yn teimlo'n gartrefol yn eich busnes
- Cynlluniwch neu chwiliwch am hyfforddiant dwyieithog ar faterion perthnasol i'ch busnes
- Cynyddwch sgiliau iaith eich tîm trwy ddsbarthiadau dysgu Cymraeg a gloywi iaith. Cysylltwch â Cymraeg i Oedolion
- Rhowch ddalen ddwyieithog ar y We
- Ceisiwch adnabod pencampwr iaith o blith eich staff.

Mae ffyrdd eraill o gael staff sy'n siarad Cymraeg fel eglura cwmni Edwards o Gonwy:

'Mae ganddo ni nifer sydd yn siarad Cymraeg... rhywbeth 'da ni wedi bod yn ei wneud, ers blynyddoedd lawer bellach, mae 'na ysgol Gymraeg ar y glannau yma, a be da ni wedi ei wneud yn fwriadol yw targedu'r ysgol am fyfyrwyr i ddod yma i weithio...maen nhw'n dod yma i weini yn ystod gwyliau'r haf... ac felly mae ganddo ni ganran uchel wedyn o Gymry Cymraeg eu hiaith tu ôl i'r cownteri.'

*Edwards o Gonwy,  
Gwerth y Gymraeg i'r sector bwyd a diod yng Nghymru  
Adroddiad ymchwil Comisiynydd y Gymraeg Rhagfyr 2014*



# Camau Bach – Sut i gryfhau delwedd gyhoeddus ddwyieithog eich busnes

Efallai nad yw popeth ar y rhestr yn berthnasol i'ch cwmni ond efallai bod rhai o fewn eich cyrraedd.

## Delwedd Gyhoeddus

### Hunaniaeth y busnes

- Darparu'n ddwyieithog - papur penawd, llofnod e-bost, cardiau busnes ac ati (yr arfer dda yw rhoi'r Gymraeg yn gyntaf neu ar y chwith)
- Cerddoriaeth gefndirol Cymraeg - defnyddiwch bosteri i ddangos eich bod yn cynnig gwasanaeth ddwyieithog.

### Staff

- Gwisgo bathodyn laith Gwaith



### Arwyddion

- Darparu arwyddion dwyieithog bob tro y newidir arwyddion presennol
- Darparu arwyddion dwyieithog bob tro y paratwir arwyddion newydd sbon.

### Cyhoeddi / Printio Deunyddiau

- Darparu'n ddwyieithog
  - o Adroddiadau blynyddol
  - o Pamffledi/ taflenni
  - o Hysbysebion
  - o Ffurflenni a deunydd esboniadol
- Os nad yw cyhoeddi mewn fformat dwyieithog yn bosib sicrhau bod fersiynau Cymraeg a Saesneg yn ymddangos ar yr un pryd.

### Hysbysiadau i'r Wasg

- Gosod hysbysebion yn y wasg Saesneg yng Nghymru, yn y ddwy laith
- Gosod hysbysebion mewn cyhoeddiadau Cymraeg (gan gynnwys papurau bro) yn Gymraeg yn unig, neu yn ddwyieithog
- Cyhoeddi datganiadau i'r wasg yn Gymraeg a Saesneg.

## Cyhoeddusrwydd /Marchnata

- Defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg mewn gweithgareddau marchnata uniongyrchol
  - o Pamffledi a thafenni
  - o Llythyrau eglurhaol
  - o Amlenni
  - o Ysgrifennu negeseuon Cymraeg a Saesneg ar y cyfryngau cymdeithasol.

## Gwefan

- Datblygu gwefan ddwyieithog neu gynlluniwch ymlaen ar gyfer hynny. Mae'n haws dylunio gwefan ddwyieithog nag ychwanegu tudalennau Cymraeg at wefan uniaith.

Wrth baratoi deunydd ysgrifenedig, mae'n bwysig bod y fersiwn Cymraeg a Saesneg yn gywir. Ni allwch ddibynnu ar gyfieithu peiranyddol i fod yn gywir a gall gwall ar arwyddion gostio'n ddrud os bydd angen ailosod a gall camgymeriadau ieithyddol adlewyrchu'n wael ar y busnes. Cysylltwch â'ch Menter Iaith leol i weld a allant gael cipolwg ar eich arwydd.

Os oes gennych rhywfaint o afael ar y Gymraeg, ceisiwch ysgrifennu yn Gymraeg yn gyntaf a chyfieithwch i'r Saesneg. Gallwch gysylltu â'ch Menter Iaith leol i ofyn iddynt brawf ddarllen darnau bach o waith.



# Cyswilt Uniongyrchol / Darparu gwasanaeth

---

## Cyfathrebu ar y ffôn

- Cyfarch galwadau yn ddwyieithog, e.e. Bore da, Good Morning...
- Gwneud trefniadau i ymdrin â galwadau ffôn yn Gymraeg
- Sicrhau bod cyfeirlyfrau ffôn mewnol yn rhoi gwybodaeth am allu ieithyddol
- Peiriannau ateb yn Gymraeg a Saesneg

## Gohebiaeth

- Sicrhau bod llythyrau a dderbynnir yn Gymraeg yn derbyn ateb yn Gymraeg
- Sefydlu bas data o unigolion/mudiadau sydd am dderbyn gohebiaeth gan y busnes yn Gymraeg/yn ddwyieithog

## Cyfarfodydd Cyhoeddus

- Sefydlu dewis iaith unigolyn o flaen llaw gan drefnu offer cyfieithu angenrheidiol

## Gwasanaeth Uniongyrchol

- Cyngori
- Hyfforddi
- Gofalu
- Cynorthwyo

## Cyfarfodydd wyneb yn wyneb

Cynnal arolwg o sgiliau ieithyddol staff o ran:

- Siarad
- Deall Cymraeg llafar
- Darllen
- Ysgrifennu
- Asesu pa weithleoedd sydd â gweithwyr dwyieithog ac a oes angen mwy
- Annog gweithwyr i wella eu Cymraeg
- Ystyried yr angen am staff dwyieithog wrth recriwtio
- Gosod hysbysebion dwyieithog yn y wasg.

## Dylunio Dwyieithog

Wrth fynd ati i ddatblygu deunyddiau marchnata neu lenyddiaeth hyrwyddo ar gyfer eich busnes mae angen cofio sawl peth.

### Mae angen:

- Cynllunio gofalus
- Agwedd strwythuredig
- Perthynas glir rhwng y cleiant a'r dylunydd
- Gweledigaeth, creadigrwydd a dychymyg.

Mae hyn yn wir hefyd am ddylunio dwyieithog.

Er bod ofnau ynglŷn â gwario ar y Gymraeg yn rhai cyffredin, trwy gynllunio gofalus gallwch leihau costau uniongyrchol ychwanegol. Yn ogystal, mi ddylai'r manteision ariannol a fel arall o ddefnyddio'r Gymraeg, bron bob amser fod yn drech na'r gwariant ychwanegol.

- Nid yw gweithredu'n ddwyieithog yn golygu bod rhaid gwneud popeth yn y ddwy iaith yn syth – mae modd mynd ati gam wrth gam.

### Mae'n bosib cyflwyno gwahanol agweddau ar wahanol adegau yn ddibynnol ar anghenion, cyfleoedd a blaenoriaethau e.e.

- Wrth frandio cwmni o'r newydd neu wrth ail-frandio delwedd y busnes
- Wrth newid arwyddion
- Wrth symud i swyddfa neu adeilad newydd
- Wrth ail argraffu nwyddau print e.e. papur pennawd neu nwyddau marchnata
- Wrth gyhoeddi darn o waith newydd
- Wrth adeiladu gwefan neu wrth ail gynllunio gwefan
- Wrth gynllunio, adolygu neu weithredu strategaeth farchnata

Dengys ymchwil gan Beaufort Research yn 2005 (a gomisiynwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg) bod 92% o siaradwyr Cymraeg rhugl yn meddwl ei bod yn bwysig i fusnesau arddangos arwyddion dwyieithog a chynhyrchu ffurflenni a thafleuni yn ddwyieithog.

Wrth ymgeisio am gyllid o ffynonellau grant ar gyfer datblygu deunyddiau marchnata, mae'r rhan fwyaf o gronfeydd yn cydnabod bod cyfieithu yn elfen gymwys i'w gyllido.

## Cynllunio

---

Rhaid sicrhau bod y dylunydd yn deall o'r dechrau y bydd y cynnyrch terfynol yn ddwyieithog a dylid egluro hynny yn glir yn y brîff.

Dylid caniatáu digon o amser ar gyfer cyfieithu yn yr amserlen.

Dylid darparu'r testun ar gyfer y ddwy iaith o'r cychwyn fel bod y dylunydd yn medru gwneud penderfyniadau doeth o safbwynt teip, cynllun, diwyg ac ati.

### Gwahanu'r ieithoedd

- Y ffordd orau o wahanu dwy iaith drwy ddefnyddio lliw yw rhoi testun y ddwy iaith mewn du, a rhoi lliw y tu ôl i un iaith.
- Mae cyfnewid lliwiau hefyd yn opsiwn, yn arbennig ar gyfer arwyddion.
- Gellir defnyddio lliwiau gwahanol ar gyfer testun y ddwy iaith.

### Colofnau cyfochrog

- Dyma ffordd ddiwastraff o ddylunio gan mai unwaith yn unig sydd angen argraffu lluniau. Yr arfer yw rhoi'r Gymraeg ar y chwith.
- Cyflwynir fersiwn gyda'r ddwy iaith mewn colofnau cyfochrog.
- Rhaid i'r ddwy fersiwn fod yn debyg o ran hyd.
- Gall y ddwy iaith rannu'r un lluniau.

### Tudalennau cyfochrog

- Cyflwynir fersiwn gyda'r ddwy iaith mewn tudalennau cyfochrog.
- Bydd angen i'r ddau fersiwn fod yn debyg o ran hyd a gall tudalennau cyfochrog ddangos yr un rhif tudalen.
- Gall y ddwy iaith rannu'r un lluniau.

### Rhannu'r dudalen

- Rhennir y dudalen yn hanner, fel rheol ar draws.
- Mae'r dewis hwn yn anarferol gan ei fod yn ymddangos bod yr iaith ar y top yn cael blaenoriaeth.

## Cefn wrth gefn

- Argraffir y ddwy iaith gefn wrth gefn ar yr un ddalen.
- Mae'n addas ar gyfer dogfennau byrion fel llythyrau.
- Gallai'r tudalennau ddangos yr un rhif ar y ddwy ochr.
- Mae'r fformat yma yn addas ar gyfer diwyd consertina – gellir darllen y testun ar ei hyd ym mha bynnag iaith mae'r darllenydd yn ei ddewis.
- Rhaid dyblygu lluniau yn y fformat hwn.

## Wyneb i waered

- Ceir yma fersiwn yn y ddwy iaith - un wyneb i waered, wedi'u rhwymo gefn wrth gefn.
- Gellir darllen y testun yn rhwydd yn y naill fersiwn a'r llall.
- Rhaid dyblygu lluniau yn y fformat hwn.
- Wrth arddangos y cyhoeddiad hwn dylid sicrhau eich bod yn gwneud hynny gan ddangos yn glir ei fod yn gyhoeddiad dwyieithog. Efallai y bydd hynny yn golygu sicrhau bod y ddau glawr yn ddwyieithog.

Cewch mwy o fanylion am ddyfunio dwyieithog yng Nghlanllaw  
Comisiynydd y Gymraeg

## Gweithio gyda Chyfieithwyr

---

Mae cynhyrchu deunydd dwyieithog a threfnu offer 'cyfieithu ar y pryd' mewn cyfarfodydd a chynadledau yn ffordd dda o gryfhau delwedd ddwyieithog ac apêl eich busnes. Mae nifer o gyfieithwyr profiadol a chymwys ar gael yng Nghymru all sicrhau gwaith graenus a safonol.

### Cyfieithu ar y pryd

Cofiwch bod cyfieithu ar lafar yn sgil wahanol iawn i gyfieithu ar bapur, ac ni fydd pob cyfieithydd yn cynnig y ddau wasanaeth.

### Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru

Mae gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru restr o aelodau ar eu gwefan [www.cyfieithwycymru.org.uk](http://www.cyfieithwycymru.org.uk) wedi ei drefnu yn ôl lleoliad daearyddol yr aelodau ac yn ôl arbenigedd. Mae rhai o'r cyfieithwyr yn gweithio ar liwt eu hunain, ac eraill yn gweithio i gwmnïau cyfieithu. Mae graddfeydd aelodaeth y Gymdeithas yn dynodi lefel profiad y cyfieithydd, gydag aelodaeth sylfaenol yn caniatáu i rywun gyfieithu dan oruchwyliaeth ac aelodaeth gyflawn yn nodi bod cyfieithydd yn gymwys i weithio heb oruchwyliaeth. Mae cyfeirlyfr y Gymdeithas yn nodi pa aelodau sy'n cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

### Mentrau Iaith

Mae rhai o Fentrau Iaith yn cyflogi cyfieithwyr sy'n cynnig gwasanaeth cyfieithu ysgrifenedig, ac mae rhai ohonynt hefyd yn cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. Mae ambell un o'r Mentrau yn rhoi benthyg offer cyfieithu ar y pryd ac yn gallu eich rhoi mewn cysylltiad gyda chyfieithydd addas, tra bod eraill yn hyfforddi cyfieithwyr cymunedol ar gyfer pwyllgorau a chyfarfodydd lleol. Cysylltwch â'ch Menter Iaith leol am wybodaeth ynglŷn â'r ddarpariaeth yn eich ardal chi, ac am gyngor yn gyffredinol ynglŷn â dod o hyd i gyfieithydd, drwy ymweld â: [www.mentrauiath.com](http://www.mentrauiath.com)

### Gwasanaeth prawf ddarllen Comisiynydd y Gymraeg

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cynnig gwasanaeth prawf ddarllen testun dwyieithog yn rhad ac am ddim (hyd at 1000 o eiriau) i fusnesau a sefydliadau trydydd sector sy'n ymrwmo i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg.

Mae gwybodaeth bellach ar gael ar [www.comisiynyddygyymraeg.org](http://www.comisiynyddygyymraeg.org)

## Pethau i'w hystyried

---

- Cofiwch sicrhau bod amser yn cael ei ganiatáu o fewn yr amserlen weinyddol ar gyfer cyfeithu a phrawf ddarllen. Peidiwch gadael i'r elfen gyfeithu fynd yn rhuthr funud olaf. Gwnewch yn siŵr bod eich staff yn ymwybodol o hyn.
- Penodwch un person i weithredu fel dolen gyswllt rhwng eich busnes a'r cyfeithydd/asiantaeth gyfeithu. Gall hyn fod yn gymorth er mwyn i'r cyfeithydd gael gwybodaeth gefndir a chyd-destun am y gwaith i'w gyfeithu, ac er mwyn cysoni a safoni unrhyw dermau arbenigol a ddefnyddir.
- Cytunwch ar delerau a dyddiad i'r gwaith gael ei ddychwelyd a chofiwch ofyn i'r cyfeithydd os ydy'r cyfraddau yn cynnwys prawf ddarllen a chywiro proflenni. Mae'n dipyn haws ac yn llawer iawn rhatach cywiro mân wallau sydd wedi digwydd rhwng y prosesau cyfeithu a dylunio cyn cynhyrchu'r deunydd gorffenedig.
- Peidiwch byth ag ymddiried y gwaith i wasanaethau cyfeithu 'awtomatig' ar-lein honedig. Mae enghreifftiau di-ri o gamgymeriadau sylfaenol a gwallau cyson yn digwydd.
- Trwy ofyn i gyfeithydd profiadol a chydabyddedig wneud y gwaith ar eich rhan rydych yn dangos ymrwymiad eich busnes i sicrhau cynnyrch safonol a chywir yn y ddwy iaith.

## Cyfarfodydd / Digwyddiadau Cyhoeddus

### Pam trefnu cyfarfod dwyieithog?

- I ateb anghenion ac arferion iaith amrywiol
- Rhoi cyfle i bobl fynegi eu hunain yn eu dewis iaith a thrwy hynny annog cyfranogaeth
- Rhoi cyfle teg i Gymry Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg ac i ddysgwyr i ymarfer eu Cymraeg
- Mae rhoi'r cyfle i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith yn normaleiddio'r defnydd ohoni yn y gweithle gan godi proffil dwyieithog eich busnes
- Er mwyn dangos eich bod fel busnes yn cefnogi'r Gymraeg a'ch bod yn barod i gydymffurfio â gofynion polisi cyhoeddus
- Er mwyn dangos bod yr iaith Gymraeg yn fyw ac yn iaith a ddefnyddir mewn gwaith a busnes.
- Am mai dyna'r peth iawn i'w wneud!

Rhaid cofio na fydd pob siaradwr Cymraeg yn dewis defnyddio'r Gymraeg yn y sefyllfa yma. Mae rhai wedi arfer gweithio drwy gyfrwng y Saesneg ac felly ar y cychwyn mae'n bosib y byddant yn ddihyder yn defnyddio'u Cymraeg yn gyhoeddus.

Gydag amser bydd eich cyfarfodydd dwyieithog yn normal i'ch staff er y gall gymryd amser iddynt i ymgyswrtu.

### Trefnu cyfarfod dwyieithog

#### Dyma rai pwyntiau i'w trafod

- Mae angen penderfynu ar ddechrau'r broses drefnu a fydd y cyfarfod yn un dwyieithog ai peidio.
- Mae angen i'r ohebiaeth – hysbysebion, posteri, gwahoddiadau, llythyron fod yn ddwyieithog. Byddai cynnwys brawddeg yn gwahodd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg yn rhoi'r hyder i bobl i wneud hynny.
- Mae angen ei gwneud hi'n glir drwy'r ohebiaeth o flaen llaw a'r agenda ei bod hi'n bosib siarad yn y naill iaith neu'r llall, ac y bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.
- Bydd angen trefnu bod cyfieithydd ar y pryd yn bresennol pan fo cymysgedd o siaradwyr Cymraeg a di-Gymraeg yn y cyfarfod.
- Dylid ychwanegu enw'r cyfieithydd ar y pryd at y rhestr ohebu, fel y bydd yn derbyn yr holl ddogfennau perthnasol o flaen llaw.
- Os yw'r cyfarfod yn un arbenigol – cylchredwch geirfa a therminoleg er mwyn annog cyfranwyr i wneud hynny yn y Gymraeg, hyd yn oed os yw'r pwnc yn ddieithr iddynt.
- Sicrhau bod unrhyw arwyddion dros dro yn yr adeilad (ar gyfer y cyfarfod) yn ddwyieithog.
- Mae cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddefnyddio i gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg. Mae cael cyfieithydd ar y pryd yn bresennol yn golygu bod y di-Gymraeg yn gallu clywed cyfieithiad Saesneg tra bod y siaradwr Cymraeg yn siarad. Mae hyn fel arfer yn digwydd drwy glustffonau. Mae'n bosib trefnu bod hyn yn digwydd yn anffurfiol wrth i'r cyfieithydd / aelod arall o'r cyfarfod sibrwd yn dawel yng nghlust y di-Gymraeg. Ni all y cyfieithu/sibrwd weithio os oes mwy na dau berson di-Gymraeg yn bresennol. Mae cael cyfieithydd yn bresennol yn parchu hawl siaradwr Cymraeg i ddewis pa iaith i siarad.
- Sicrhau bod y cyfarfod dwyieithog yn llifo'n naturiol wrth symud yn ôl a 'mlaen o'r un iaith i'r llall.

## Sut i gadeirio cyfarfodydd dwyieithog?

Mae gennych rôl fel cadeirydd i annog pawb i ddefnyddio'i ddewis iaith. Yr her yw gwneud hynny mewn ffordd mor naturiol â phosib a fydd yn annog siaradwyr Cymraeg i gyfrannu yn y Gymraeg mewn sefyllfaoedd amrywiol a newydd.

Mae'n bwysig eich bod yn sefydlu awyrgylch ac amodau a fydd yn gwrthweithio'r duedd i droi i'r Saesneg. Mae angen dangos ei bod hi'n beth hollol naturiol i bob siaradwr Cymraeg ddefnyddio'r Gymraeg ac nad yw'n anghwrtais siarad Cymraeg ym mhresenoldeb pobl ddi-Gymraeg.

### Arfer da i gadeiryddion:

- Annog a chefnogi trafodaeth yn y ddwy iaith
- Agor a chau pob cyfarfod yn ddwyieithog
- Croesawu cyfraniadau yn y Gymraeg ar ddechrau'r cyfarfod
- Cyflwyno'r cyfieithydd a'r drefn cyfieithu ar y pryd ar y dechrau gan sicrhau bod clustffonau pawb yn gweithio
- Cadeirio'n broffesiynol a threfnus gan sicrhau bod pawb yn siarad yn ei dro – bydd hyn o help mawr i'r cyfieithydd
- Defnyddio cymaint o Gymraeg â phosib yn y cyfarfod.

### Am ragor o wybodaeth neu gyngor cysylltwch â:

Cyngor Sir Gâr



Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg



Llywodraeth Cymru



[www.menterbrodinefwr.cymru](http://www.menterbrodinefwr.cymru)  
Rhif ffôn: (01558) 825336  
Epost: [post@menterbrodinefwr.cymru](mailto:post@menterbrodinefwr.cymru)



[www.mentercwmgwendraeth.cymru](http://www.mentercwmgwendraeth.cymru)  
Rhif ffôn: 01269 871600  
Epost: [post@mcge.org.uk](mailto:post@mcge.org.uk)



[www.mentergorllewinsirgar.cymru](http://www.mentergorllewinsirgar.cymru)  
Rhif ffôn: 01239 712934  
Epost: [ymholiad@mgsg.cymru](mailto:ymholiad@mgsg.cymru)



### Cymraeg Byd Busnes

Gwasanaeth Rhad ac am ddim i gefnogi busnesau bach a chanolig i ddefnyddio mwy o Gymraeg. Cyngor a chymorth ymarferol ar sut i fanteisio ar ddefnyddio'r iaith yn eich busnes.

#### Sara Rees

Swyddog Cymraeg Byd Busnes  
Rhanbarth Dinefwr, Gwendraeth ac  
Elli  
[sararees@mentrauiath.cymru](mailto:sararees@mentrauiath.cymru)  
07809 731579 / 01558 825336

#### Heledd Llwyd

Swyddog Cymraeg byd busnes  
Rhanbarth Gorllewin Sir Gâr a Sir  
Benfro  
[heleddlwyd@mentrauiath.cymru](mailto:heleddlwyd@mentrauiath.cymru)  
07809 731571